Cynllun Iaith Gymraeg
RSPB Cymru

Derbyniodd Cynllun Iaith Gymraeg yr RSPB gymeradwyaeth Bwrdd yr Iaith Gymraeg ar 16 Mawrth 2006.

Wpo \ np \ regions \ Cymru Cynllun Iaith Gymraeg/5422

Cynnwys

Cyflwyniad 2
Yr RSPB 2

1 Egwyddorion Cyffredinol 3

2 Cysylltiadau Allanol 4
2.1 Cyfathrebiad Ysgrifenedig 4
2.2 Cyfathrebu Llafar 4
2.3 Cyfarfodydd (Preifat) 5
2.4 Cyfarfodydd (Cyhoeddus) 5
2.5 Deunydd Printiedig 5
2.6 Cyfryngau 6

3 Gweinyddiaeth Fewnol 7
3.1 Staff a recriwtio 7
3.2 Hyfforddiant a datblygiad 7
3.3 Cyllid 7

4 Gweithredu a monitro 9
4.1 Gweithrediadau 9
4.2 Amserlen ar gyfer gweithredu 9
4.3 Monitro 14

Cyflwyniad

Yr RSPB

Elusen gofrestredig yn y DU yw'r RSPB sydd yn gweithio i sicrhau amgylchedd iach ar gyfer adar a bywyd gwyllt arall. Mae'r RSPB yn ymgymryd ag amryw o rolau gan gynnwys:

- ymgyrchu ar ran adar a'r amgylchedd
- gwarchod, adfer, a rheoli cynefinoedd ar gyfer adar a bywyd gwyllt arall
- ymchwilio i'r problemau sydd yn wynebu adar a'r amgylchedd
- ymgymryd â phrosiectau adfer ar gyfer nifer o rywogaethau o dan fygythiad
- rheoli dros 180 o warchodfeydd natur
- galluogi pobl i fwynhau byd natur a dysgu mwy amdano
- gweithredu ledled pedair gwlad y DU
- mynd i'r afael â materion cadwraeth rhyngwladol drwy gyfrwng BirdLife International.

Mae gweithrediadau'r RSPB yn cael eu blaenoriaethu gan yr Ymddiriedolwyr a Bwrdd Rheoli Gweithredol y DU. Yng Nghymru, fe oruchwylir gweithrediadau gan Aelod o'r Bwrdd ac fe'u rheolir gan Gyfarwyddwr Cymru sydd wedi ei leoli yng Nghaerdydd. Fe gyfeirir at yr RSPB yng Nghymru fel RSPB Cymru, ac mae'n llunio ei gweithrediadau i fod yn briodol ar gyfer Cymru. O ran iaith, mae RSPB Cymru wedi paratoi **Cynllun Iaith Gymraeg** yn unol â chanllawiau a chyngor Bwrdd yr Iaith Gymraeg. Mae'r Cynllun yn amlinellu sut bydd yr RSPB yn gweithredu yng Nghymru gan ddefnyddio'r ddwy iaith.

Mae RSPB Cymru wedi mabwysiadu'r egwyddor y bydd yr ieithoedd Cymraeg a Saesneg yn cael eu trin yn gyfartal wrth ddelio gyda busnes cyhoeddus yng Nghymru. Mae'r Cynllun Iaith Gymraeg yn ffurfio rhan o ymroddiad yr RSPB i gysylltiadau o ansawdd uchel o fewn Cymru, ac fe'i datblygwyd i alluogi RSPB Cymru i sicrhau cynnydd parhaol tuag at wireddu ei hamcanion. Mi ddylai'r ddogfen hon gael ei darllen ar y cyd â'r canllawiau a amlinellir yn **Cysylltu ar ran yr RSPB yng Nghymru**, Dogfen Gofal Cwsmer RSPB Cymru.

Mae'r cynllun hwn yn berthnasol i weithrediadau RSPB Cymru yng Nghymru, holl staff a gwirfoddolwyr RSPB Cymru sydd yn gweithio yng Nghymru, a staff yr RSPB yn y DU y mae eu gwaith yn canolbwyntio ar Gymru. Nid oes dim yn y Cynllun hwn sydd yn gwrthdaro gyda neu yn peryglu amcanion elusennol yr RSPB.

Paratowyd Cynllun Iaith Gymraeg yr RSPB gyda chymorth Pwyllgor Ymgynghorol Cymru yr RSPB (cofnodion Tachwedd 2002 ac Ebrill 2003) ac fe'i cymeradwywyd gan y Bwrdd Rheoli yn Rhagfyr 2003.

Yn y testun a ganlyn, mae'r paragraffau sydd wedi eu rhifo yn disgrifio'r amcanion a'r egwyddorion y byddwn yn ymdrechu i'w gwireddu. Mae'r pwyntiau bwled yn disgrifio'r gorchwylion a'r gweithrediadau y byddwn yn ymgymryd â hwy i weithredu'r cynllun hwn. Mae'r rhain wedi eu crynhoi ynghyd ag amserlen arfaethedig ym mharagraff 4.2 (tudalen 9).

1 Egwyddorion Cyffredinol

1.1 Wrth ymwneud â busnes cyhoeddus yng Nghymru, mi fydd yr ieithoedd Cymraeg a Saesneg yn cael eu trin yn gyfartal.

1.2 Bydd print Cymraeg a Saesneg o'r un maint yn ymddangos ar yr holl ddeunydd cyhoeddus sydd yn tarddu o RSPB Cymru.

- Canllawiau wedi eu cynhyrchu a'u dosbarthu i holl staff Cymru (ffolderau cyhoeddus Cymru i'w hatodi i'r Cynllun hwn fel y'u datblygir).

1.3 Bydd deunyddiau yn cael eu cynhyrchu'n ddwyieithog (hy yn y ddwy iaith yn yr un ddogfen) cyn belled â bod hyn yn rhesymol ac yn ymarferol. Lle nad yw hyn yn bosib, mi fydd cyhoeddiadau ar gael yn Gymraeg a Saesneg fel cyhoeddiadau ar wahân.

- Cynhelir archwiliad o'r deunyddiau nad ydynt yn cyrraedd y safon hwn.

1.4 Bydd deunyddiau arddangos yn ymddangos yn y ddwy iaith bob amser, un wrth ochr y llall

- Canllawiau wedi eu cynhyrchu a'u dosbarthu i holl staff Cymru (ffolderau cyhoeddus Cymru i'w hatodi i'r Cynllun hwn fel y'u datblygir) a'r Adran Gwasanaethau Creadigol ym Mhencadlys DU yr RSPB.

1.5 Bydd y deunyddiau bob amser o'r un safon broffesiynol p'un ai yn Gymraeg neu Saesneg

- Canllawiau wedi eu cynhyrchu a'u dosbarthu i holl staff Cymru (ffolderau cyhoeddus Cymru i'w hatodi i'r Cynllun hwn fel y'u datblygir) a'r Adran Gwasanaethau Creadigol ym Mhencadlys DU yr RSPB.

1.6 Cefnogir y Cynllun hwn gan hyfforddiant, a fydd ar gael i bob aelod o staff y credir bod angen arnynt lefel uwch o allu i gyfathrebu yn yr iaith Gymraeg (fel yr amlygir yn yr Archwiliad Iaith Gymraeg).

- Ymgymryd ag archwiliad iaith staff. Mi fydd daliwr unrhyw swydd â sgôr 2+ yn cael cynnig gwersi iaith Gymraeg.
- Canllawiau i'w cynhyrchu ar y cyrsiau y bydd yr RSPB yn cefnogi staff i'w mynychu (ffolderau cyhoeddus Cymru i'w hatodi i'r Cynllun hwn fel y'u datblygir).

2 Cysylltiadau Allanol

2.1 Cyfathrebiad Ysgrifenedig

2.1.1 Bydd pob cyfathrebiad ysgrifenedig yn cael ei ateb yn iaith y cyfathrebiad gwreiddiol.

- Canllawiau wedi eu cynhyrchu, gan gynnwys manylion ar gyfieithwyr, a'u dosbarthu i holl staff Cymru (ffolderau cyhoeddus Cymru i'w hatodi i'r Cynllun hwn fel y'u datblygir) a'r Adran Gwasanaethau Creadigol ym Mhencadlys DU yr RSPB.

2.1.2 Bydd y cyfnod ymateb ar gyfer y ddwy iaith yr un fath, fel a nodir yn **Cysylltu ar ran yr RSPB yng Nghymru**, Polisi Gofal Cwsmer RSPB Cymru.

- **Cysylltu ar ran yr RSPB yng Nghymru** i'w ddosbarthu i holl staff Cymru (ffolderau cyhoeddus Cymru) a'r Adran Gwasanaethau Creadigol ym Mhencadlys DU yr RSPB.

2.1.3 Bydd unigolion a sefydliadau yn cael eu hannog i'n hystyried fel sefydliad dwyieithog sydd yn medru gohebu yn y ddwy iaith.

- Mae'r deunyddiau canlynol ar gael yn ddwyieithog: papur â phennawd**,** dalenni ffacs, cardiau busnes, slipiau cyfarchion, troedynnau e-bost a chardiau Nadolig (copi caled neu ar ffurf e-bost)
- Canllawiau wedi eu cynhyrchu ar gyfer deunyddiau newydd a'u dosbarthu i holl staff Cymru (ffolderau cyhoeddus Cymru i'w hatodi i'r Cynllun hwn fel y'u datblygir) a'r Adran Gwasanaethau Creadigol ym Mhencadlys DU yr RSPB.

2.1.4 Ar gronfa ddata Cysylltiadau RSPB Cymru, nodir pob cyswllt y mae'n well ganddo gysylltu yn Gymraeg. Mi fydd staff yn cael eu hannog i ddefnyddio cronfa ddata Cysylltiadau Swyddfa fel ffynhonnell o wybodaeth i sicrhau bod yr iaith gywir yn cael ei defnyddio.

- Sicrhau bod cronfa ddata Cysylltiadau Swyddfa yn cael ei diweddaru'n aml ac yn cael ei defnyddio gan holl staff Cymru (Rheolwyr Swyddfa i weithredu).

2.2 Cyfathrebu Llafar

Lle mae hyfforddiant wedi ei amlygu fel dull o gyflawni amcan, darperir graddfa amser ym mharagraff 3.2, ac amserlen gweithredu ym mharagraff 4.2.

2.2.1 Bydd teleffonau yn cael eu hateb gyda chyfarchiad dwyieithog ac mi fydd yr un neges yn y ddwy iaith ar beiriant ateb ffôn.

- Y canllawiau a osodir allan yn **Cysylltu ar ran yr RSPB yng Nghymru**.

2.2.2 Bydd pob aelod o staff y mae ei ddisgrifiad swydd yn cynnwys ateb ffôn yn cael ei hyfforddi i ateb gyda chyfarchiad dwyieithog ac i ddelio'n briodol gyda galwadau gan siaradwyr y naill iaith neu'r llall.

- Trefnu cwrs penodol gan diwtor iaith Gymraeg. Yr holl staff priodol i'w fynychu.
- Staff cynorthwyol i gadw cofnod o'r galwadau sydd yn cael eu derbyn yn y ddwy iaith.

2.2.3 Pob aelod o staff sydd yn ateb ffôn i'w hyfforddi ar sut i ynganu enwau personol a lleoedd yn gywir yn y Gymraeg.

- Trefnu cwrs penodol gan diwtor iaith Gymraeg. Yr holl staff priodol i'w fynychu.

2.3 Cyfarfodydd (Preifat)

2.3.1 Byddwn yn cynnig dewis iaith wrth gynnal cyfarfodydd preifat. O dderbyn hysbysiad a lle bynnag ei fod yn ymarferol, mi fyddwn yn cydymffurfio gydag unrhyw geisiadau i gynnal cyfarfodydd preifat yn yr iaith a ddewisir gan yr ymwelydd.

- Canllawiau wedi eu cynhyrchu a'u dosbarthu i holl staff Cymru (ffolderau cyhoeddus Cymru i'w hatodi i'r Cynllun hwn fel y'u datblygir).

2.4 Cyfarfodydd (Cyhoeddus)

2.4.1 Mi fyddwn yn cynnig dewis iaith mewn cyfarfodydd. Mi fydd asesiad o'r angen am gyfieithu yn cael ei gwblhau ar gyfer unrhyw gyfarfod ar raddfa fawr neu gynulliad o aelodau'r RSPB neu'r cyhoedd, ac mi fydd cyfleusterau yn cael eu darparu yn seiliedig ar yr asesiad hwnnw. Os, yn seiliedig ar yr asesiad, na fydd cyfleusterau cyfieithu yn cael eu darparu, amlygir y ffaith hon ymlaen llaw.

- Canllawiau wedi eu cynhyrchu ar sut i ymgymryd ag asesiad a Thempled Safonol wedi ei lunio a'i ddosbarthu i holl staff Cymru (ffolderau cyhoeddus Cymru i'w hatodi i'r Cynllun hwn fel y'u datblygir).

2.4.2 Darperir cyfleusterau cyfieithu ar y pryd neu gyfieithu dilynol mewn cyfarfodydd o 50 neu fwy o bobl os bydd yr asesiad yn amlygu angen.

2.5 Deunydd Printiedig

2.5.1 Bydd pob deunydd a arddangosir i'r cyhoedd, megis arwyddion, gwybodaeth am warchodfeydd ac arddangosfeydd, yn ddwyieithog ac mi fydd pob taflen, ffurflen a deunydd codi arian sydd wedi eu cynhyrchu'n benodol ar gyfer Cymru yn cael eu cyhoeddi yn y ddwy iaith.

- Canllawiau wedi eu cynhyrchu a'u dosbarthu i holl staff Cymru (ffolderau cyhoeddus Cymru i'w hatodi i'r Cynllun hwn fel y'u datblygir) a'r Adran Gwasanaethau Creadigol ym Mhencadlys yr RSPB. Gweler 'Canllaw i Ddylunio Dwyieithog' gan Fwrdd yr Iaith Cymraeg.

2.5.2 Ar ail-gyhoeddi, bydd unrhyw ddeunydd uniaith megis arwyddion, ffurflenni, a thaflenni sydd yn deillio o Gymru yn cael eu cynhyrchu yn ddwyieithog.

- Canllawiau wedi eu cynhyrchu a'u dosbarthu i holl staff Cymru (ffolderau cyhoeddus Cymru i'w hatodi i'r Cynllun hwn fel y'u datblygir) a'r Adran Gwasanaethau Creadigol ym Mhencadlys DU yr RSPB.

2.5.3 Bydd Y Barcud a phob cylchlythyr arall sydd yn deillio o RSPB Cymru yn cael eu cyhoeddi yn ddwyieithog.

- Canllawiau wedi eu cynhyrchu a'u cylchredeg i holl staff Cymru (ffolderau cyhoeddus Cymru i'w hatodi i'r Cynllun hwn fel y'u datblygir) a'r Adran Gwasanaethau Creadigol ym Mhencadlys DU yr RSPB.

2.5.4 Bydd pob cyhoeddiad sydd yn deillio o RSPB Cymru ar gael yn ddwyieithog lle bynnag bod hynny yn ymarferol neu yn y ddwy iaith os nad yw hyn yn bosib.

2.5.5 Lle bod adran benodol o adroddiad blynyddol yr RSPB y DU yn berthnasol i Gymru, mi fydd yn ddwyieithog.

- Canllawiau wedi eu cynhyrchu a'u dosbarthu i holl staff Cymru (ffolderau cyhoeddus Cymru i'w hatodi i'r Cynllun hwn fel y'u datblygir).

2.5.6 Bydd yr holl ddeunydd yn cael ei gyfieithu gan gyfieithwyr proffesiynol. Ni fyddwn fel arfer yn disgwyl i staff a gwirfoddolwyr sy'n siarad Cymraeg ymgymryd â gwaith cyfieithu os nad ydynt wedi eu cyflogi yn benodol i wneud hynny.

- Canllawiau ar ddefnyddio cyfieithwyr, ynghyd â manylion cysylltu, wedi eu dosbarthu i holl staff Cymru (ffolderau cyhoeddus Cymru i'w hatodi i'r Cynllun hwn fel y'u datblygir) a'r Adran Gwasanaethau Creadigol ym Mhencadlys DU yr RSPB.

2.6 Cyfryngau

2.6.1 Bydd RSPB Cymru yn cynnig gwasanaeth dwyieithog i'r wasg. Mi fyddwn yn darparu gwybodaeth i'r cyfryngau yng Nghymru yn yr iaith y gofynnir amdano ee Cymraeg i Radio Cymru a Saesneg i Radio Wales.

- Staff dwyieithog i'w penodi i swyddi sydd yn delio yn gyfan gwbl neu gan fwyaf gyda'r cyfryngau.

2.6.2 Byddwn yn defnyddio aelodau o staff a gwirfoddolwyr sydd yn siarad Cymraeg fel siaradwyr ar gyfer cyfryngau iaith Gymraeg, gan sicrhau eu bod yn berchen ar yr wybodaeth a'r awdurdod i siarad ar ran yr RSPB.

- Hyfforddiant yn y Gymraeg neu mewn gwaith cyfryngau i'w drefnu lle bod hyn yn briodol.

3 Gweinyddiaeth Fewnol

3.1 Staff a recriwtio

3.1.1 Bydd archwiliad blynyddol o broffil iaith swyddi a staff yn cael ei gwblhau i sicrhau bod gofynion iaith Gymraeg RSPB Cymru yn cael eu sicrhau. Bydd yr archwiliad yn adnabod swyddi lle mae medrau yn yr iaith Gymraeg yn hanfodol a lefel y medrau sydd eu hangen ar staff. Gwneir yn iawn am unrhyw ddiffygion drwy hyfforddi staff presennol neu recriwtio staff newydd fel bo'n addas.

- Cynnal Archwiliad Iaith Gymraeg a sgorio pob swydd a staff presennol. (Wedi ei atodi i'r Cynllun hwn)
- Rheolwyr Llinell i roi Archwiliad Iaith Gymraeg o'u staff ar waith fel rhan o Werthusiad Blynyddol yr RSPB.

3.1.2 Bydd cytundebau cyflogaeth yn cael eu cynnig yn y ddwy iaith ar gais.

- Canllawiau wedi eu cynhyrchu a'u dosbarthu i holl staff Cymru (ffolderau cyhoeddus Cymru i'w hatodi i'r Cynllun hwn fel y'u datblygir) a'r Adran Adnoddau Dynol ym Mhencadlys yr RSPB yn y DU.

3.1.3 Bydd pob hysbyseb sydd yn cael ei hysbysebu yng Nghymru ar gyfer swyddi gyda RSPB Cymru yn ddwyieithog.

- Canllawiau wedi eu cynhyrchu a'u dosbarthu i holl staff Cymru (ffolderau cyhoeddus Cymru i'w hatodi i'r Cynllun hwn fel y'u datblygir) a'r Adran Adnoddau Dynol ym Mhencadlys yr RSPB yn y DU.

3.2 Hyfforddiant a datblygiad

3.2.1 Bydd y Cynllun hwn yn ffurfio rhan annatod o sefydlu aelodau newydd o staff yng Nghymru, a staff mewn mannau eraill o'r DU y mae cysylltiad gyda Chymru yn rhan annatod o'u gwaith.

3.2.2 Ar gyfer swyddi newydd, bydd gofynion hyfforddiant iaith Gymraeg yn cael eu hadnabod yn ystod y broses sefydlu, a bydd unrhyw hyfforddiant yn cael ei roi ar waith o fewn cyfnod prawf pob swydd.

3.2.3 Ar gyfer swyddi sydd yn bodoli eisoes bydd rheolwyr llinell yn adnabod gofynion hyfforddi iaith Gymraeg fel rhan o'u gwerthusiad blynyddol.

- Bydd hyfforddiant yn yr iaith Gymraeg i gyrraedd y safon sydd wedi ei adnabod yn y Cynllun yn cychwyn o fewn chwe mis i fabwysiadu'r Cynllun hwn, lle mae gweithredu hynny yn ymarferol.

3.3 Cyllid

3.3.1 Sicrheir amcanion y Cynllun drwy ymgorffori gwariant a defnydd o adnoddau ar wasanaethau iaith Gymraeg yng

ngwaith craidd RSPB Cymru, fel ei bod yn dod yn naturiol i ddarparu gwasanaethau yn y ddwy iaith swyddogol, ac i drefnu adnoddau i gyrraedd y nod yma.

- Y gwir gost o ddarparu gwasanaethau dwyieithog i'w ymgorffori mewn ceisiadau am grantiau (Gweithredu: Tîm Marchnata Cymru).
- Paratoi cynlluniau gwariant yn seiliedig ar ofynion y Cynllun ar gyfer bob blwyddyn i'w cynnwys yn y cynigion cyllido blynyddol (Gweithredu: Rheolwr Cyfathrebu Cymru)

4 Gweithredu a monitro

4.1 Gweithredu

4.1.1 Bydd y Cynllun yn cael ei wneud yn rhan annatod o weithgareddau cynllunio a phrosiectau.

- Rheolwyr Llinell i sicrhau bod pob aelod o staff yn ymwybodol o ac yn deall goblygiadau'r Cynllun ar gyfer eu gwaith.
- Cyfarwyddwr RSPB Cymru fydd â chyfrifoldeb drwyddo draw am weithredu'r Cynllun.

4.1.2 Bydd y Cynllun yn cael ei gynnwys fel eitem gyson ar agendâu Tîm Rheoli Cymru.

- Y Cyfarwyddwr i gynnwys y Cynllun ar yr agenda'n flynyddol, gydag eitemau ychwanegol os bydd yr angen yn codi.

4.2 Amserlen ar gyfer gweithredu

Lle cyfeirir at ganllawiau o fewn y Cynllun hwn, mi fydd y dyddiad gweithredu yr un peth ag yw i'r weithred gysylltiedig.

1.1	Wrth ymwneud â busnes cyhoeddus yng Nghymru, mi fydd y Gymraeg a'r Saesneg yn cael eu trin yn gyfartal.	*Erbyn Mawrth 2006*
1.2	Bydd print Cymraeg a Saesneg o'r un faint yn ymddangos ar yr holl ddeunydd cyhoeddus sydd yn deillio o RSPB Cymru.	*Erbyn Medi 2006*
1.3	Bydd archwiliad o'r deunydd nad yw yn cyrraedd safon y Cynllun hwn yn cael ei gynnal	*Erbyn Mawrth 2006*
1.4	Bydd deunydd arddangos Cymraeg bob amser yn ymddangos wrth ochr deunydd Saesneg	*Erbyn Medi 2006*
1.5	Bydd y deunydd Cymraeg bob amser o'r un safon broffesiynol â deunydd Saesneg.	*Erbyn Mawrth 2006*
1.6	Bydd y Cynllun hwn yn cael ei gefnogi gan hyfforddiant, a fydd ar gael i'r holl staff yr ystyrir bod arnynt angen lefel uwch o allu i gyfathrebu yn yr iaith Gymraeg	*Cyfnod cyntaf erbyn Mawrth 2006 ac yna'n parhau*
2.1.1	Bydd pob cyfathrebiad ysgrifenedig yn cael ei ateb yn iaith y cyfathrebiad gwreiddiol.	*Erbyn Mawrth 2006*
2.1.2	Bydd yr amser ymateb ar gyfer y ddwy iaith yr un fath, fel yr amlinellir yn **Cysylltu ar ran yr**	*Erbyn Mawrth 2006*

	RSPB yng Nghymru.	

2.2.1	Bydd galwadau ffôn yn cael eu hateb gyda chyfarchiad dwyieithog a chlywir yr un neges yn y ddwy iaith ar beiriant ateb ffôn.	*Erbyn Mawrth 2006*
2.2.2	Bydd pob aelod o staff sydd yn ateb y ffôn (fel y nodir yn eu disgrifiad swydd) yn cael eu hyfforddi i ateb gyda chyfarchiad dwyieithog ac i ddelio yn briodol gyda galwadau gan siaradwyr Cymraeg.	*Erbyn Medi 2006*
2.2.3	Pob aelod o staff sydd yn ateb y ffôn i'w hyfforddi ar sut i ynganu enwau personol a lleoedd Cymraeg yn gywir.	*Erbyn Mawrth 2006*
2.2.4	Mi fydd nodyn yng nghronfa ddata Cysylltiadau Swyddfa yn nodi'r rhai hynny y mae'n well ganddynt ohebu yn Gymraeg. Mi fydd staff yn cael eu hannog i ddefnyddio bas data Cysylltiadau Swyddfa fel ffynhonnell ar gyfer cynhyrchu pob gohebiaeth i sicrhau bod yr iaith briodol yn cael ei defnyddio.	*Erbyn Mawrth 2006*
2.3.1	Mi fyddwn yn cynnig dewis iaith wrth gynnal cyfarfodydd preifat. O dderbyn hysbysiad a lle bynnag y bydd yn ymarferol mi fyddwn yn cydymffurfio ag unrhyw geisiadau i gynnal cyfarfodydd preifat yn yr iaith a ddewisir gan yr ymwelydd.	*Erbyn Mawrth 2006*
2.4.1	Mi fyddwn yn cynnig dewis iaith mewn cyfarfodydd. Gwneir asesiad o anghenion cyfieithu ar gyfer unrhyw gyfarfod ar raddfa fawr neu gynulliad o aelodau'r RSPB neu'r cyhoedd, a darperir cyfleusterau yn unol â'r asesiad hwnnw. Os, yn seiliedig ar yr asesiad, na fydd cyfleusterau cyfieithu yn cael eu darparu, fe amlygir y ffaith hon ymlaen llaw. Mi fydd Templed Asesiad yn cael ei lunio.	*Erbyn Mawrth 2006*
2.4.2	Darperir cyfleusterau cyfieithu ar y pryd neu gyfieithu dilynol mewn cyfarfodydd o 50 neu fwy o bobl os fydd yr asesiad yn amlygu angen.	*Erbyn Medi 2006*

2.5.1	Bydd pob deunydd a arddangosir i'r cyhoedd, megis arwyddion,	*Erbyn Medi 2006*

	gwybodaeth am warchodfeydd ac arddangosfeydd, yn ddwyieithog ac mi fydd yr holl daflenni, ffurflenni a deunydd codi arian sydd yn benodol ar gyfer Cymru yn cael eu cyhoeddi yn y ddwy iaith.	
2.5.2	Bydd unrhyw ddeunydd uniaith megis arwyddion, ffurflenni, a thaflenni sydd yn deillio o Gymru yn cael eu cynhyrchu yn ddwyieithog pan fyddant yn cael eu hail-gyhoeddi.	*Cyfredol*
2.5.3	Bydd Y Barcud a phob cylchlythyr arall sydd yn deillio o RSPB Cymru yn cael ei gyhoeddi yn ddwyieithog.	*Erbyn Mawrth 2006*
2.5.4	Bydd yr holl gyhoeddiadau sydd yn deillio o RSPB Cymru ar gael yn yn y ddwy iaith neu'n ddwyieithog lle bynnag bo hynny yn ymarferol.	*Erbyn Mawrth 2006*
2.5.5	Bydd adran Cymru o adroddiad blynyddol y DU yn ddwyieithog.	*Erbyn Mawrth 2006*
2.5.6	Yr holl ddeunydd i'w gyfieithu gan gyfieithydd proffesiynol.	*Cyfredol*
2.6.1	Bydd RSPB Cymru yn cynnig gwasanaeth dwyieithog i'r cyfryngau. Mi fyddwn yn darparu gwybodaeth i'r cyfryngau yng Nghymru yn yr iaith y gofynnir amdano ee Cymraeg ar gyfer Radio Cymru a Saesneg ar gyfer Radio Wales.	*Cyfredol*
2.6.2	Byddwn yn defnyddio aelodau o staff a gwirfoddolwyr sydd yn siarad Cymraeg fel siaradwyr ar gyfer cyfryngau iaith Gymraeg, gan sicrhau bod ganddynt yr wybodaeth a'r awdurdod i siarad ar ran yr RSPB. Bydd hyfforddiant yn y Gymraeg neu mewn gwaith cyfryngol yn cael ei roi lle bo'n briodol.	*I'w drafod a'i ychwanegu at DS yn ystod gwerthusiad blynyddol neu bob chwe mis.*
3.1.1	Cynnal Archwiliad Iaith Gymraeg a sgorio pob swydd a staff presennol. Rheolwyr llinell i ymgymryd ag Archwiliad Iaith Gymraeg o'u staff fel rhan o Werthusiad Blynyddol yr RSPB.	*Yn flynyddol ym mis Ebrill*
3.1.2	Bydd cytundebau cyflogaeth yn cael eu cynnig yn y ddwy iaith ar	*Erbyn Mawrth 2006*

	gais.	
3.1.3	Bydd pob hysbyseb ar gyfer swydd gyda RSPB Cymru yn ddwyieithog.	*Cyfredol*
3.2.1	Bydd y Cynllun hwn yn ffurfio rhan annatod o sefydlu aelodau newydd o staff yng Nghymru, a staff mewn mannau eraill o'r DU y mae cysylltiad gyda Chymru yn rhan annatod o'u gwaith.	*Cyfredol*
3.2.2	Ar gyfer swyddi newydd, mi fydd gofynion hyfforddiant yr iaith Gymraeg yn cael eu hadnabod, ac unrhyw hyfforddiant yn cael ei roi ar waith o fewn cyfnod prawf pob swydd.	*Erbyn Mawrth 2006*
3.2.3	Ar gyfer swyddi sy'n bodoli eisoes, bydd rheolwyr llinell yn adnabod anghenion hyfforddi iaith Gymraeg, ac yn sicrhau bod hyfforddiant wedi ei gychwyn o fewn chwe mis i gymeradwyo'r cynllun hwn.	*Cyfnod cyntaf erbyn Mawrth 2006 ac yna i'w barhau*
3.3.1	Bydd y Cynllun yn cael ei ymgorffori yng ngwariant a'r defnydd o adnoddau yng ngwaith craidd RSPB Cymru. Bydd y gost o wasanaethau dwyieithog yn cael ei ymgorffori mewn ceisiadau am grantiau (Gweithredu: Tîm Marchnata Cymru). Bydd gwariant blynyddol ar sail gofynion y Cynllun yn cael ei gynnwys o fewn y cynigion cyllido blynyddol (Gweithredu: Rheolwr Cyfathrebu Cymru).	*Cyfnod cyntaf erbyn Mawrth 2006 ac yna i'w barhau*
4.1.1	Cyfarwyddwr Cymru â chyfrifoldeb drwyddo draw am weithredu'r Cynllun. Rheolwyr Llinell i sicrhau bod pob aelod o staff yn ymwybodol o ac yn deall goblygiadau'r Cynllun ar gyfer eu gwaith.	*Erbyn Mawrth 2006*
4.1.2	Gosod y Cynllun fel eitem gyson ar agenda TRhC	*I barhau*
4.3.1	Rheolwr Cyfathrebu i adolygu a gwerthuso'r Cynllun pob tair blynedd, yn erbyn mesuryddion a gweithredu amserlen, a chyflwyno adroddiad yn flynyddol i TRC a'r Bwrdd Iaith Gymraeg.	*Erbyn Mawrth 2006 ac yna yn flynyddol*

4.3 Monitro

4.3.1 Bydd y mesuryddion canlynol yn cael eu defnyddio yn flynyddol i fesur gweithredu:

- canran o gyhoeddiadau yn tarddu o Gymru a gynhyrchir yn ddwyieithog (nod 100%)
- canran o ohebiaeth Gymraeg a atebir yn Gymraeg o fewn yr amserlen a ganiateir (wedi ei gofnodi gan staff cynorthwyol) (targed 100%)
- y nifer o staff a dderbyniodd hyfforddiant (targed 100% o'r rhai hynny y mae eu swyddi yn dod o fewn y categori 'hanfodol')
- y nifer o alwadau ffôn iaith Gymraeg a atebir yn gyfan gwbl yn Gymraeg (wedi ei gofnodi gan staff cynorthwyol) (targed blwyddyn 1: Gogledd Cymru 75%, De Cymru 50%)

4.3.2 Bydd y mesuryddion uchod, yn ogystal â'r gweithrediadau yn yr amserlen yn 4.2, yn cael eu defnyddio mewn adolygiad a gwerthusiad blynyddol a fydd yn cael eu cynnal gan y Rheolwr Cyfathrebu.

- Y Rheolwr Cyfathrebu i gyflwyno adolygiad a gwerthusiad blynyddol i Dîm Rheoli Cymru ac i Fwrdd yr Iaith Gymraeg.